Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## North Wales Eye Correction Centre, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83504-758-3



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ....................................................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................................................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................................................8

- Ansawdd Profiad y Claf ....................................................8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................................... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ................................ 14

4. Y camau nesaf .................................................... 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............... 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .................................... 18

Atodiad C – Cynllun gwella .................................... 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o North Wales Eye Correction Centre, Bangor ar 11 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur gan gleifion a chwblhawyd un gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan North Wales Eye Correction Centre drefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion sy'n ymweld â'r clinig.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Gwelsom fod y staff yn y clinig yn trin y cleifion yn gwrtais ac â pharch.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau ar waith hefyd i gleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu mwy o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion, ymwelwyr a'r staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Nid oedd llawer o feddyginiaeth yn cael ei storio ar y safle, ac roedd y rhan fwyaf o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi drwy ap fferyllol electronig.

Roedd prosesau effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a ddefnyddir ac roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid prynu oergell feddyginiaeth a monitro'r tymheredd yn rheolaidd gan ddefnyddio thermomedr isafswm/uchafswm
- Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn dadebru sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalin
- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff dyddiadau adolygu eu cofnodi ar bolisïau a gweithdrefnau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Cadw Cofnodion.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn y clinig, gyda'r staff yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r staff yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r canllawiau roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n unol â'r rheoliadau drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trosolwg gan y rheolwyr
- Proses recriwtio staff ac arfarniadau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Fel rhan o'r broses arolygu, defnyddiodd AGIC holiadur i gael barn y cleifion ar y gofal a ddarperir yn North Wales Eye Correction Centre.

Cafwyd cyfanswm o bump ymateb gan y cleifion. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> **"Cafodd fy mhroblemau eu cymryd o ddifrif, doedd dim byd yn ormod o drafferth. Mae gan bob aelod o'r staff agwedd gadarnhaol, nid oes unrhyw oedi ac maent yn gwneud eu gwaith heb unrhyw ffws na ffwdan. Mae hyn yn braf iawn i'w weld."**
>
> ***"Gwnaeth y staff i mi deimlo'n gyfforddus ac roedd y driniaeth yn effeithlon iawn ac ni fu'n rhaid i mi aros yn hir iawn."***
>
> ***"Hoffwn ddweud fy mod wedi cael profiad arbennig o'r dechrau i'r diwedd. Cefais ddwy lawdriniaeth cataract dros gyfnod o dri diwrnod ac roedd y gwasanaeth a gefais gan Mr Quay a'i dîm yn arbennig iawn. Gwnaethant i mi deimlo'n gwbl gyfforddus ac nid oeddent yn gallu gwneud digon i wneud yn siŵr bod fy nhriniaeth mor ddiffwdan â phosibl. Gweithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf."***
>
> ***"Llwyddais i drefnu ymgynghoriad lleol drwy ffonio, doedd dim problem yn cael gafael ar y meddyg ymgynghorol. Roedd angen ymgynghoriad arnaf ar frys un tro. Cefais gynnig cyfarfod ar unwaith mewn lleoliad arall, derbyniais y cynnig hwnnw a chefais gymorth i ddatrys y broblem."***

**Diogelu a gwella iechyd**
Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

**Urddas a pharch**
Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Cawsom wybod fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd trin yn cael eu cadw ar gau bob amser pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd cyfeillgar a chwrtais. Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth roi gofal a thriniaeth.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Roedd taflenni am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael yn yr ystafell aros.

Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cawsom wybod fod cynlluniau ar waith i ddarparu mwy o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y gwasanaeth hefyd wefan gynhwysfawr yn rhoi manylion am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig a'r rheini a gynigir gan y sefydliad ar safleoedd eraill.

**Dylai'r darparwr cofrestredig barhau â'r cynlluniau i ddarparu mwy o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion. Cadarnhaodd archwiliad o sampl o nodiadau'r cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod yn y nodiadau meddygol pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw.

**Cynllunio a darparu gofal**
Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y Datganiad o Ddiben.

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cynnal asesiadau o'r cleifion er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y clinig yn monitro atgyfeiriadau er

mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad oedd cleifion yn cael eu gweld gan feddygon ymgynghorol nac yn cael eu trin yn ddiangen.

Roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw ac roedd gwybodaeth am driniaethau hefyd yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Mae'r Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Gleifion a gwybodaeth ar wefan y clinig yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau cleifion.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan staff y clinig, a'i fod yn teimlo eu bod yn gwrando arno.

Roedd lleoedd parcio ar gael gerllaw ac roedd mynediad da i'r brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**
Roedd cyfle i gleifion roi sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r clinig gyda holiaduron ar gael yn yr ardal aros er mwyn iddynt roi adborth yn barhaus. Caiff arolygon boddhad eu cynnal yn dilyn triniaethau er mwyn cael barn y cleifion gan ddefnyddio apiau ar-lein.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Yn ôl yr olwg, roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Gwelsom nad oedd unrhyw beryglon amlwg yn unrhyw ardal.

Roedd yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir.

Roedd asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno fod yr amgylchedd yn lân, a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith yno.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i roi arweiniad i'r staff ar atal a rheoli heintiau ac roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar hyn.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i roi arweiniad i'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd amrywiaeth o gyfarpar ar gael yn y clinig er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gofal a thriniaethau i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar hwn yn cael ei brofi/calibradu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

Ni chaiff unrhyw gyfarpar na chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, er enghraifft llewygu, eu storio ar y safle.

**Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn dadebru sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalin.**

Roedd gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Wrth drafod â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu a chawsom wybod eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau adolygu wedi'u cofnodi ar bob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff dyddiadau adolygu eu cofnodi ar bolisïau a gweithdrefnau.**

Gwelsom sampl o gofnodion meddygol y cleifion, a oedd yn cael eu cadw ar ffurf electronig, ac roedd y cofnodion hynny yn drefnus. Roedd y cofnodion a welwyd yn cynnwys manylion am y clinigydd a oedd yn creu'r cofnod ynghyd â digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd bod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Mae'r peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser a dim ond personau awdurdodedig sy'n gallu ei actifadu.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i weithredwyr y laser.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad.
Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r darparwr cofrestredig yn gofyn barn y

cleifion fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

**Rheoli cofnodion**

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel.

**Rheoli Meddyginiaethau**

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar y broses o reoli meddyginiaethau.

Nid oedd llawer o feddyginiaeth yn cael ei storio ar y safle, ac roedd y rhan fwyaf o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi'n electronig drwy ap fferyllol electronig.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, roedd meddyginiaethau sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu storio mewn oergell safonol ochr yn ochr â llaeth a chynhyrchion bwyd eraill.

**Dylai'r person cofrestredig brynu oergell storio meddyginiaethau gymeradwy a monitro'r tymheredd yn rheolaidd gan ddefnyddio thermomedr isafswm/uchafswm**.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roeddem yn fodlon ar drefniadau'r tîm rheoli ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth.

Ar adeg yr arolygiad, dim ond am ddiwrnod neu ddau bob mis roedd y gwasanaeth ar agor.

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Mae'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith er mwyn sicrhau ffocws penodol ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal i'r cleifion.

Fel rhan o'r broses arolygu, dosbarthodd AGIC holiadur i gael barn y staff ar ansawdd y gwasanaeth a gynigir yn y clinig. Cawsom un holiadur wedi'i gwblhau.

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd a'u bod yn teimlo bod eu rheolwr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu gwaith.

Dengys y cofnodion bod yr unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig o leiaf unwaith y mis.

**Fodd bynnag, rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n unol â'r rheoliadau drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth.**

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael, ac roedd manylion yn nodi sut y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben ac ar y wefan. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau o bwys ac ar gyfer rhannu'r gwersi a ddysgwyd ohonynt i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd gwasanaethau meddygol/ymgynghori yn cael eu darparu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r clinig, o dan drefniadau Breintiau Ymarfer ffurfiol, nad oeddent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig. Roedd Breintiau Ymarfer yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob dwy flynedd fel y bo'n ofynnol.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob unigolyn ag awdurdod i ddefnyddio'r peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o ran ei berfformiad yn y gwaith drwy'r Gymdeithas Feddyginiaeth Frenhinol. Roedd trefniadau cyfatebol ar waith rhwng y clinig a'r byrddau iechyd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad meddygon ymgynghorol a'r trefniadau ar gyfer eu goruchwylio a'u harfarnu.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gwelsom fod y person cofrestredig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i staff ddechrau gweithio yn y clinig.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** North Wales Eye Correction Centre

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** North Wales Eye Correction Centre

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r darparwr cofrestredig barhau â'r cynlluniau i ddarparu mwy o wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 18. (1) (b)<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru | Rydym wedi cysylltu â'r gymdeithas macwlaidd ac wedi gofyn iddi anfon cyhoeddiadau a thaflenni gwybodaeth i gleifion sydd ar gael yn Gymraeg i'r practis.<br><br>Rydym hefyd wedi gofyn i RNIB anfon grid Amsler atom â'r cyfarwyddiadau wedi'u hargraffu yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw rhai o lyfrynnau gwasanaethau oedolion RNIB sydd ar gael yn Gymraeg mewn stoc ac rydym wedi gwneud cais | Barry Thompson | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Safon 18. Cyfathrebu'n Effeithiol | i'r sefydliad roi gwybod i ni pan fyddant ar gael unwaith eto. | | |
| Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried prynu pecyn dadebru sy'n cynnwys o leiaf ocsigen ac adrenalin. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 22. | Ers yr arolygiad, rydym bellach wedi archebu silindr ocsigen â masg wyneb ac EpiPen i'w cadw yn y practis. | Barry Thompson | Wedi'i gwblhau |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff dyddiadau adolygu eu cofnodi ar bolisïau a gweithdrefnau. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 9. (5) | Rydym wedi diweddaru pob dyddiad adolygu ar ein polisïau a'n gweithdrefnau. | Barry Thompson | Wedi'i gwblhau |
| Dylai'r person cofrestredig brynu oergell storio meddyginiaethau gymeradwy a monitro'r tymheredd yn rheolaidd gan ddefnyddio thermomedr isafswm/uchafswm. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 15. (5) (a) | Mae oergell gradd feddygol bellach wedi cael ei phrynu ar gyfer y practis. | Barry Thompson | Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 15. Rheoli Meddyginiaethau | | | |
| Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n unol â'r rheoliadau drwy lunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 28. (4) (c)<br><br>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<br><br>Safon 6. Cymryd rhan mewn | Bydd yr unigolyn cyfrifol (Barry Thompson) yn llunio adroddiad yn dilyn ymweliadau â'r gwasanaeth. | Barry Thompson | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Gwella Ansawdd | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** **Say Aun Quah**

**Swydd:** **Rheolwr Cofrestredig a Chyfarwyddwr Meddygol North Wales Eye Correction Centre**